CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU
GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES

COFNODION CYFARFOD RHIF UN AR BYMTHEG AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 9FED GORFFENNAF 2009

LLEOLIAD: CASTELL RHUTHUN, RHUTHUN

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Mike Edwards
Jacquie Turnbull(Dirprwy Gadeirydd)	Angela Jardine
Phil Bassett	Gareth Jones
Frank Bonello	Hélène Mansfield
Tim Cox	Suzanne Nantcurvis
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Susan Davies	Anna Spokes
Sheila Drayton	Sarah Stockford

Ymddiheuriadau:

Beth Davies	Roberto De Benedictis
Ian Guy	Gareth Matthewson
Jane Morris	Sue O'Halloran
Jane Setchfield	Cleo Sollars
Jacky Tonge	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Read	Ysgrifenyddes y Cyngor
Joy Austin	Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod rhif un ar bymtheg ar hugain y Cyngor.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Beth Davies, Roberto De Benedictis, Ian Guy, Gareth Matthewson, Jane Morris, Sue O'Halloran, Jane Setchfield, Cleo Sollars a Jacky Tonge.

1.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod Anne Robertson wedi ymddiswyddo o'r Cyngor a chadarnhaodd fod Gareth Matthewson wedi'i benodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd y swydd wag. Byddai tymor ei wasanaeth yn rhedeg tan 31ain Awst 2010. Roedd Mr Matthewson wedi ei hysbysu o gyfarfod y Cyngor heddiw ar fyr rybudd ac wedi anfon ei ymddiheuriadau.

1.4 Yna estynnwyd croeso i Ian Matheson (Swyddog Cynllunio ac Ymchwil Addysgol, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwr.

1.5 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y câi'r cyfarfod ei gynnal yn ddwyieithog. Estynnwyd croeso i'r sawl a oedd yn arsylwi yn yr oriel gyhoeddus.

1.6 Yna darparwyd adroddiad byr i'r aelodau ar Gynhadledd Ryngwladol y Cynghorau Addysgu a gynhaliwyd gan y Cyngor rhwng y 24ain a'r 26ain o Fehefin 2009. Adroddodd y Cadeirydd ar lwyddiant gynhadledd a oedd wedi denu sylw rhagorol yn y cyfryngau. Dywedodd y bu cyfle i'r holl fynychwyr drafod pynciau heriol a chlywed prif areithiau gan nifer o siaradwyr o ansawdd uchel. Yna diolchodd i'r swyddogion am y croeso dihafal a estynnwyd i bawb a fynychodd y gynhadledd ac am eu gwaith caled yn trefnu'r digwyddiad. Roedd yr aelodau'n cytuno a chymeradwywyd y gwaith drwy guro dwylo.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 3ydd Gorffennaf 2009 mewn perthynas â Chynllun Corfforaethol y Cyngor 2009-12 a'r Cynllun Gweithredol 2009-10.

3.2 Nododd yr aelodau yr ohebiaeth. Ni chodwyd unrhyw faterion.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 28ain Ebrill 2009

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn Codi:

4.2 Cofnod 4.2: Tystiolaeth i Gonfensiwn Cymru Gyfan: Gofynnodd un aelod am ddiweddariad ar gyflwyniad y Cyngor i Gonfensiwn Cymru Gyfan. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y cyflwyniad llafar wedi mynd yn dda a bod crynodeb gair am air o fewnbwn y Cyngor ar gael ar wefan Confensiwn Cymru Gyfan.

4.3 Cofnod 15.4: Crynodeb Ystadegau Blynyddol 2009: Roedd data a dadansoddiadau ychwanegol wedi'u dosbarthu o amgylch y bwrdd er gwybodaeth i'r aelodau yn dilyn ceisiadau yn y cyfarfod blaenorol. Gofynnodd un aelod a ellid cynnal dadansoddiad pellach, i rannu'r sectorau cynradd ac uwchradd i raddau helaethach. Câi hyn ei ddosbarthu i'r aelodau drwy'r post.

4.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas â'r Eitem a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (18)

5.1 Ni hysbyswyd am unrhyw eitemau.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 8fed Mehefin 2009

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a gynghorodd yr aelodau y byddai'r holl faterion heblaw un yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn Codi:

6.2 Cofnod 8.3: Strategaeth Gyfathrebu Ddiwygiedig: Yn rhan o'r eitem hon, tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at ei adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol ar dri chyfarfod a oedd wedi'u cynnal o dan 'Reolau Chatham House' gyda chynrychiolwyr o ADEW, CCAUC, y sector AU ac unigolion eraill sy'n gysylltiedig â darparu DPP gyda golwg ar geisio datblygu safbwynt cyffredin ynghylch cyllido DPP i athrawon yn y dyfodol, a chyflwyno hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd set o egwyddorion cryno, lefel uchel, wedi'u datblygu a oedd yn cynnwys consensws barn ond, yn y dadansoddiad terfynol, nid oedd ADEW na CCAUC (am wahanol resymau) yn dymuno cyflwyno'r ddogfen fel un ar y cyd.

6.3 Cynigiodd y Prif Weithredwr y gallai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar dri mater DPP yng ngoleuni adolygiad arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad, sef, y papur ar gyllido DPP yng Nghymru; dadansoddi'r defnydd o gyllid Sefydlu a DPC gan gynnwys argymhellion i wella canllawiau'r Cynulliad; a chynllun y rhaglen Athro Siartredig yn y brif ffrwd (yn amodol ar gael cytundeb ar hyn yn ddiweddarach yn y cyfarfod). Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr argymhelliad.

6.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

6.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 4ydd Mehefin 2009

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn yn fras gan Hugh Pattrick, a dynnodd sylw at ddwy eitem yr oedd y Pwyllgor wedi'u trafod na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod. Y rhain oedd; nad oedd unrhyw ofyniad cyfreithiol bellach i athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda'r Cyngor, a bod athrawon sy'n nesáu at y rheol pum mlynedd yn eu Sefydlu yn cael eu monitro. Roedd y Cyngor yn parhau i ysgrifennu at athrawon a oedd wedi ennill SAC ond heb lwyddo yn eu blwyddyn sefydlu hyd yma, ac a oedd yn nesáu at eu terfyn amser ar gyfer gwneud hynny,. Fodd bynnag, nid oedd gan y Cyngor unrhyw orchwyl pellach mewn perthynas â'r mater hwn.

Materion yn Codi:

7.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 4ydd Mehefin 2009

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn yn fras gan y Prif Weithredwr a thynnwyd sylw'r aelodau at y prif bwyntiau.

Materion yn Codi:

8.2 Cofnod 2.2: Papur safbwynt ar reoleiddio proffesiynol ym maes AB: Hysbyswyd yr aelodau ei fod ef a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cael cyfarfod llwyddiannus gydag AMiE (y Gymdeithas Rheolwyr ym maes Addysg, partneriaeth rhwng ACM ac ATL) ar 15fed

Mehefin 2009. Roedd cynrychiolwyr o AMiE wedi bod yn gefnogol iawn o bapur safbwynt y Cyngor. Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i adrodd bod cyfarfod gyda chynrychiolwyr o *fforwm*, a fynychwyd hefyd gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, wedi bod yn llai buddiol am nad oedd yn ymddangos bod *fforwm* yn gwerthfawrogi'n llawn agwedd reoleiddio corff proffesiynol na byrdwn dadl 14-19 y Cyngor. Byddai cysylltiad yn cael ei wneud o'r newydd gydag UCU unwaith byddai'r sefydliad mewn sefyllfa i gymryd rhan mewn trafodaethau.

8.3 Ar y pwynt hwn tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y Papur Gwyn yn Lloegr a oedd yn nodi cynlluniau i gyflwyno trwydded adnewyddadwy i addysgu ar gyfer athrawon cymwys. Byddai hyn yn dod i rym o fis Medi 2010. Cynigiodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor Polisi ddatblygu safbwynt ar y datblygiad hwn. Roedd yr aelodau'n cytuno.

8.4 Awgrymodd un aelod y gellid holi pob plaid wleidyddol ynghylch polisïau addysgol yng nghyd-destun yr etholiad cyffredinol sydd ar y gorwel. Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno y dylid ceisio cael gwybod yn ffurfiol beth oedd y safbwyntiau hyn.

8.5 Cofnod 4: Egwyddorion drafft i ategu gweithgarwch ymchwil CyngACC: Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i adrodd bod y Pwyllgor Polisi wedi dechrau maes gwaith newydd yn datblygu strategaeth ar gyfer y Cyngor mewn perthynas ag ymchwil a oedd yn nodi manylion gweithgareddau ac egwyddorion.

8.6 Cofnod 5: Ymateb CyngACC i ymgynghoriad y Cynulliad ar Reoli Perfformiad: Hysbyswyd yr aelodau bod ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Reoli Perfformiad wedi'i gyflwyno.

8.7 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

8.8 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd 8fed Mehefin 2009

9.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Sheila Drayton, a amlygodd dri phrif bwynt.

Materion yn Codi:

9.2 Cofnod 2.2: Materion yn Codi: Hysbyswyd yr aelodau bod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn treialu rhestr wirio o gamau gweithredu a oedd yn galluogi aelodau i olrhain cynnydd ac amser cwblhau disgwyliedig eitemau i'w gweithredu. Byddai'r treial yn mynd yn ei flaen ac, os yn briodol, gellid dod ag argymhelliad gerbron y Cyngor i'r templed gael ei fabwysiadu ym mhob Pwyllgor Sefydlog.

9.3 Cofnod 3: Adroddiadau Archwilio Mewnol a Chofnod 4: Barn Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol: Roedd y Cyngor wedi derbyn sicrwydd sylweddol gan ei Archwilwyr Mewnol a rhoddwyd cydnabyddiaeth i waith y swyddogion wrth sicrhau hyn.

9.4 Cofnod 12.1: Ymarfer hunanasesu: Awgrymwyd na ddylai aelodau fod yn feirniadol o'u cydweithwyr na'r pwyllgor yn gyffredinol wrth ymgymryd â'r ymarfer hwn, a gallai fod yn well i bob aelod gynnig un awgrym cyffredinol ar gyfer gwella.

9.5 Cofnod 3.3: Adroddiadau Archwilio Mewnol: Gofynnodd un aelod am eglurhad ar yr opsiwn a roddwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) y gellid dod â swyddogaeth cyflogres y Cyngor yn fewnol a holodd a oedd gallu'n bodoli'n fewnol i wneud hyn. Esboniodd Julia Evans fod nifer bach o gamgymeriadau wedi digwydd gyda gwasanaeth cyflogres y Cyngor ond y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda chynrychiolwyr o Moorepay i ddatrys y materion hyn. Ni wnaed unrhyw ymchwil hyd yma ynghylch yr opsiwn i ddod â'r swyddogaeth yn fewnol,

ond petai hyn yn cael ei wneud, byddai'n fater o sicrhau ansawdd a dibynadwyedd yn hytrach nag er mwyn torri costau.

9.6 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

9.7 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog Diwygiedig (CyngACC 29/09)

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr a gwahoddwyd yr aelodau i fabwysiadu nifer bach o fân newidiadau i Reolau Sefydlog y Cyngor. Roedd y newidiadau wedi dod i'r amlwg yn dilyn ymarfer hunanwerthuso blynyddol yr aelodau ac ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ystyried yr adroddiad a roddodd fanylion canlyniadau'r ymarfer.

10.2 Ar y pwynt hwn, holodd un aelod a oedd adrannau'n gwrth-ddweud ei gilydd ar dudalen 7, paragraff 18, adrannau 2 a 3. Nid oedd yn glir i'r aelodau a allai'r Cadeirydd fynd ymlaen i drafod busnes mewn achosion brys pe na bai cworwm. Cytunwyd y dylid diwygio'r testun.

10.3 Amlygodd aelod arall y ffaith bod angen cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer pleidleisio.

10.4 Nodwyd un pwynt olaf er eglurder a thynnwyd sylw'r aelodau at dudalen 4, paragraff 5. Awgrymwyd y dylid ystyried unrhyw gamau mewn perthynas ag absenoldeb parhaus aelod o'r Cyngor yn y Sesiwn Breifat.

10.5 Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig yn unol â'r cynnig a nodwyd y gellid cyfeirio'r tri mater at y Pwyllgor Gweithredol er mwyn iddo'u trafod ymhellach. Roedd yr aelodau'n cytuno.

10.6 Cytunodd yr aelodau i fabwysiadu fersiwn diwygiedig y Rheolau Sefydlog.

10.7 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

11. Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol drafft diwygiedig (CyngACC 30/09)

11.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), ac atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor yn gallu cyhoeddi Cod Proffesiynol ar gyfer athrawon cofrestredig o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ar ôl cyhoeddi'r cod cyntaf yn 2002, roedd y Cyngor wedi penderfynu y dylid adolygu'r ddogfen bob tair blynedd.

11.2 Yn rhan o'r adolygiad presennol, roedd y Cyngor wedi derbyn cyngor ym mis Mai 2008 mai CyngACC oedd yr unig Gyngor Addysgu yn y DU ac Iwerddon (gyda chyfrifoldebau disgyblu) nad oedd ei god yn gosod isafswm safonau ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn. Roedd y Cyngor wedi derbyn rhai pryderon gan undebau athrawon yng Nghymru nad oedd y safonau disgwyliedig gan GyngACC o ran ymddygiad a chymhwysedd wedi'u nodi mor glir â rhai CyngACau eraill.

11.3 Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2008, roedd y Pwyllgor Cofrestru wedi dod i'r farn ei bod yn bwysig i'r Cyngor geisio gosod yr isafswm safonau ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn drwy God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Er bod dogfennau presennol y Cyngor, y *Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol*, a *Phroffesiynoldeb ar Waith* yn ddefnyddiol ac yn ateb diben defnyddiol, teimlwyd mai'r ffordd fwyaf priodol o roi arweiniad clir i athrawon, cyflogwyr a'r undebau athrawon oedd drwy ddogfen newydd a fyddai'n disodli'r rhai sy'n bodoli eisoes. Byddai'r Cod hefyd yn parhau i ddarparu

tryloywder i'r cyhoedd am fod gofyn i'r Cyngor gynnal ei gyfrifoldeb safonau proffesiynol statudol er budd y cyhoedd.

11.4 Gwahoddwyd yr aelodau i drafod y *Cod Ymddygiad ac Ymarfer drafft ar gyfer athrawon cofrestredig*, a fyddai'n destun ymgynghori gyda'r proffesiwn unwaith y câi ei gymeradwyo.

11.5 Lleisiodd un aelod ei phryderon ynghylch datblygu'r Cod, a theimlai ei fod yn mynd gam yn rhy bell o'i gymharu â dogfennau arweiniad presennol y Cyngor. Gan amlygu nifer o'r egwyddorion allweddol a'r safonau a nodwyd yn y Cod arfaethedig, roedd yn pryderu bod y testun yn rhy awdurdodus a'i fod yn mentro'n ormodol i fywydau personol athrawon. Dywedodd hefyd fod y testun yn rhy agored i'w ddehongli ac yn anymarferol mewn mannau. Nododd y Prif Weithredwr fod testun y *Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol* a *Phroffesiynol ar Waith* wedi'i drosglwyddo i raddau helaeth i'r ddogfen newydd ac nad oedd y derminoleg a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r disgwyliadau gan athrawon yn newydd. Yn ddiweddarach yn y drafodaeth, nododd yr aelod y byddai statws y Cod newydd lawer yn uwch a byddai athrawon yn cael eu gorfodi yn hytrach na'u hannog i lynu wrtho, er bod geiriad y dogfennau blaenorol yn debyg i raddau helaeth i'r un newydd.

11.6 Gofynnwyd am sicrwydd bod ymchwil wedi'i chynnal ar godau tebyg a gyhoeddwyd gan GyngACau a chyrff rheoleiddio eraill. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod y pwyllgor wedi derbyn amrywiaeth helaeth o ddeunydd ymchwil fel sail ar gyfer ei ystyriaethau, gan GyngAC yn y DU ac Iwerddon a chan ystod o gyrff proffesiynol yn y sectorau meddygol a gofal iechyd.

11.7 Yna cafwyd trafodaeth am y derminoleg a ddefnyddiwyd yn y Cod drafft a mynegwyd amrywiol safbwyntiau. Prif bwyntiau'r drafodaeth oedd: y gellid ystyried bod testun y ddogfen arfaethedig yn rhy ragnodol wrth gynghori gweithwyr proffesiynol sut i fod yn broffesiynol; y dylid defnyddio "plain English" ble bynnag y byddai'n bosibl ac y gellid defnyddio ymadroddion cadarnhaol, megis "cynnal" yn hytrach na darparu rhestr o dan y pennawd "ni ddylid...". Roedd yr aelodau'n cytuno y byddai angen gosod cyd-destun i'r Cod, pan gâi ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno gyda'r proffesiwn, fel y gallai athrawon ddeall pam y datblygwyd y ddogfen.

11.8 Cymerodd un aelod o'r Pwyllgor Cofrestru y cyfle i esbonio bod ystyriaeth wedi'i rhoi, wrth ddatblygu'r drafft arfaethedig, i amrywiol enghreifftiau a bod rhai o'r rhain yn cynnwys disgwyliadau sylweddol lymach o'u gweithwyr proffesiynol. Er nad oedd y Cod yn dymuno darparu rhestr derfynol o ymddygiad annerbyniol, roedd y Pwyllgor wedi ceisio darparu mwy o eglurder ynghylch y disgwyliadau gan athrawon yng Nghymru a theimlwyd bod ganddynt yr hawl i'w derbyn.

11.9 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod y rhan o'r Cod a oedd yn nodi na ddylai athrawon drafod perthnasau personol gyda phlant ac yn arbennig sut y gellid diwygio'r testun er mwyn osgoi camddehongli ac i gyd-fynd â disgwyliadau'r cwricwlwm. Gellid ychwanegu'r term 'amhriodol' i roi eglurder.

11.10 Yn eu rôl fel panelwyr ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol, roedd aelodau'n arbennig o ymwybodol o'r mathau o achosion a digwyddiadau a gâi eu dwyn i sylw'r Cyngor er mwyn cynnal ymchwiliadau a'u dymuniad oedd i roi eglurder ynghylch ymddygiad derbyniol. Cadarnhaodd un aelod ei barn, gan gyfeirio at ei phrofiad hi fel aelod o Bwyllgor Safonau Proffesiynol a'r mathau o achosion roedd wedi gwrando arnynt, bod angen canllawiau cwbl glir.

11.11 Y pwyntiau olaf a godwyd oedd: nad oedd unrhyw safonau'n bodoli ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch na Goruchwylwyr Gwasanaeth ac y gallai'r Cyngor ddymuno cynnig sylwadau yn hyn o beth, ac y gellid ystyried ceisio cyngor gan y sefydliad 'Plain English' ar y testun drafft.

11.12 Gofynnodd un aelod am fanylion pellach ynghylch y trefniadau ymgynghori. Cynigiodd Hayden Llewellyn y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng mis Hydref 2009 a mis Ionawr 2010 ac adroddodd y byddai gwahoddiad yn cael ei estyn i bob athro a sefydliad rhanddeiliad ymateb drwy wefan y Cyngor. Byddai'r ymgynghoriad hefyd yn cael ei gyhoeddi yn *Addysgu Cymru.*

11.13 Cytunodd yr aelodau ar yr amserlen ar gyfer ymgynghori. Roedd yr aelodau hefyd yn cytuno y dylid diwygio'r Cod drafft ar sail y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth ac y dylid dosbarthu'r drafft diwygiedig i bob aelod cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cofrestru ar 17eg Medi 2009. Byddai pob aelod o'r Cyngor yn cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i gytuno ar y ddogfen i ymgynghori arni i'r Pwyllgor Cofrestru.

11.14 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

12. Cynigion ar gyfer diwygio aelodaeth Pwyllgorau Safonau Proffesiynol (CyngACC 31/09)

12.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, adroddodd Hayden Llewellyn *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)* ar gynigion a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Cofrestru i leihau cronfa'r bobl a oedd ar gael i eistedd ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol a gwahanu'r rôl rhwng pobl a fyddai'n gyfrifol am bolisi, gwneud penderfyniadau a swyddogaethau ymgynghorol y Cyngor a'r rheiny a fyddai'n eistedd ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol.

12.2 Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi cytuno ym mis Gorffennaf 2008 i adolygu ei drefniadau presennol am dri rheswm. Y rhain oedd: bod cronfa'r bobl sy'n eistedd ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol o'u cymharu â nifer yr achosion yn uchel ac y byddai'n parhau i gynyddu oherwydd trefniadau cyfansoddiadol y Cyngor; yn ail, bod y rhan fwyaf o reoleiddwyr wedi gwahanu rolau "gosodwyr safonau" a "dyfarnwyr" ac yn olaf, roedd y Cyngor wedi cael nifer bach o achosion lle roedd pob aelod o'r Cyngor wedi'i “liwio” o bosibl a gallai hyn arwain at Apêl yn yr Uchel Lys. Roedd y Pwyllgor Cofrestru wedi trafod a dadlau'r materion dros y flwyddyn flaenorol.

12.3 Tynnwyd sylw'r aelodau at yr egwyddorion sylfaenol arfaethedig ar gyfer sefydlu cronfa ar gyfer gwaith safonau proffesiynol. Roedd y rhain yn ymwneud â chydbwysedd y gronfa o ran athrawon cofrestredig, aelodau lleyg ac aelodau'r Cyngor (hyd nes i'r Cynulliad ddiwygio'r Rheoliadau); profiad addysgu presennol ym mhob cyfnod neu fel pennaeth; rhyw; gallu dwyieithog; ethnigrwydd; profiad o waith safonau proffesiynol a rhychwant daearyddol. Mae'r egwyddorion hefyd yn nodi y dylai'r gronfa fod o faint penodol fel y byddai aelodau'n ymgymryd â saith diwrnod ar gyfartaledd ar y pwyllgor bob blwyddyn; y byddai penodiadau newydd i'r gronfa drwy broses recriwtio ffurfiol gan ddefnyddio manyleb person neu set o gymwyseddau; ffurf y panel dethol; cyfnod penodiadau gyda'r opsiwn o'i ymestyn am gyfnod cyfyngedig; cydnabyddiaeth ariannol yn unol â chyfradd gyflenwi ddyddiol y Cyngor a gorfodi presenoldeb yn yr hyfforddiant diweddaru blynyddol. Byddai swyddogion yn adolygu maint, ffurf a chydbwysedd y gronfa bob blwyddyn yn dilyn hyfforddiant diweddaru'r aelodau ac yn ystyried lefel bresennol y gwaith achosion.

12.4 Cynigiwyd y gallai'r Cyngor symud i'r sefyllfa hon mewn dau gam. Yn gyntaf, erbyn tua 2013 y nod oedd lleihau i raddau helaeth nifer yr aelodau o'r Cyngor a oedd yn rhan o'r gronfa, ac erbyn tua 2015 trefnu nad oedd unrhyw aelodau o gwbl o'r Cyngor yn rhan o'r gronfa.

12.5 Llongyfarchodd un aelod y Pwyllgor Cofrestru ar ddatblygu set resymegol o egwyddorion i'w hystyried. Nododd aelod arall y gallai fod angen diwygio tudalen 8,

paragraff 2.1, adran (e) i gynnwys y ffaith bod yr Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi'i sefydlu.

12.6 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill. Yn amodol ar un diwygiad i destun yr egwyddorion, cymeradwyodd yr aelodau'r egwyddorion arfaethedig a'r amserlen ar gyfer gweithredu.

13. Cynigion ar gyfer y rhaglen Athro Siartredig yn y brif ffrwd (CyngACC 32/09)

13.1 Darparodd Hayden Llewellyn (Dirprwy *Prif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) amlinelliad bras o'r cynigion ar gyfer cynllun llwybr portffolio at Statws Athro Siartredig a rhoddodd grynodeb o'r nodweddion a gytunwyd yn flaenorol ar gyfer y rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru yn y brif ffrwd. Cynigiwyd y byddai'r 'pecyn' cyffredinol yn ei ffurf derfynol yna'n cael ei ddarparu i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cyfrannu at ei Hadolygiad DPP.

13.2 Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r gwerthusiad annibynnol, unwaith y câi gwblhau a'i dderbyn, yn darparu gwybodaeth bellach ar ganlyniadau'r cynllun peilot a ddylai gael eu defnyddio i fireinio cynllun y pecyn terfynol. Nid oedd yn disgwyl i'r gwerthusiad gael effaith fawr ar gynllun cyffredinol y rhaglen, am fod y gwerthusiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd ymagweddau cyflwyno ac asesu penodol i fodiwlau unigol a'r portffolio.

13.3 Holodd un aelod a fyddai modiwlau'n cael eu pennu neu a fyddai gan ddarparwyr hyblygrwydd i deilwra modiwlau. Dywedodd Hayden Llewellyn y byddai cyfuniad o'r ddau ar gael ac y byddai digon o amser yn cael ei ganiatáu i ddarparwyr gyflwyno'u modiwlau arfaethedig i'w cymeradwyo. Rhoddodd sicrwydd hefyd y byddai cyfarfodydd gyda'r holl ddarparwyr yn cael eu trefnu unwaith y byddai'r trefniant ar gyfer cyllido'r rhaglen Athro Siartredig yn y brif ffrwd wedi'i ddatblygu.

13.4 Atgoffwyd yr aelodau y byddai cyflwyniad i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 20fed Hydref 2009 gan yr Athro David Egan o Uned y Sefydliad Ymchwil Addysgol Gymwysedig yn APCC. Dyfarnwyd y contract ar gyfer cynnal gwerthusiad annibynnol o gynllun peilot Athro Siartredig i'r Athrofa a byddai'r adroddiad llafar yn darparu adroddiad terfynol i'r aelodau ar yr ymarfer gwerthuso.

13.5 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach. Cytunodd yr aelodau i'r cynigion a nodwyd eu bod yn edrych ymlaen at yr adroddiad gwerthuso annibynnol.

14. Adroddiad Blynyddol Drafft a Chyfrifon Blynyddol Drafft 2008-09 (CyngACC 33/09)

14.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr, a dynnodd sylw'r aelodau at lwyddiannau allweddol y Cyngor fel y'u nodwyd yng Nghrynodeb Gweithredol yr Adroddiad Blynyddol. Talodd deyrnged i waith y swyddogion a oedd wedi arwain at y cyflawniadau y gallai'r Cyngor ymfalchïo'n fawr ynddynt. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno mynediad ar-lein at y Gofrestr Athro Cymwys; datblygu papur safbwynt ar drefniadau arolygu ysgolion yn y dyfodol a'u cyflwyniad gerbron Estyn; dadansoddiad manwl o'r gweithgareddau datblygiad proffesiynol a gynhelir gan athrawon newydd yn ystod eu tair blynedd cyntaf o addysgu a chwblhau cam cyntaf cynllun peilot y rhaglen Athro Siartredig yn llwyddiannus. Roedd y Cyngor hefyd wedi ymestyn ei gyfleoedd rhwydweithio ar draws Ewrop drwy ei aelodaeth ag EUNEC; derbyniwyd asesiad cadarnhaol ar gyfrifon 2007-08 gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyhoeddwyd nifer o ddatganiadau i'r wasg i dynnu sylw at waith cadarnhaol athrawon yng Nghymru.

14.2 Mewn perthynas â'r Cyfrifon Blynyddol drafft adroddodd Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* fod cryn ofal wedi'i

gymryd drwy gydol y flwyddyn weithredol i gadw'r gwariant yn unol â'r gyllideb. Hysbyswyd yr aelodau bod sefyllfa o fantoli'r llyfrau wedi'i chyrraedd yn dilyn camau cynlluniedig i symud cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad Blynyddol 2008-09:

14.3 Tynnodd un aelod sylw at y cofnod presenoldeb aelodau. Nododd fod presenoldeb yn y Pwyllgorau Sefydlog yn amrywio, er bod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn dda, a galwodd ar aelodau i fynychu lle bynnag y byddai'n bosibl er mwyn cynorthwyo wrth ddatblygu cynigion at yr hirdymor. Gofynnodd aelod arall am eglurhad ynghylch a oedd mynychu cyfarfodydd drwy gyfrwng fideo-gynadledda'n cael ei gynnwys. Cadarnhaodd y swyddogion fod hyn yn cyfrif.

Cyfrifon Blynyddol heb eu Harchwilio 2008-09:

14.4 Aeth un aelod ymlaen i awgrymu y dylai swyddogion wirio ei gofnod yn y Datganiad o Fuddiannau Partïon Cysylltiedig mewn perthynas ag aelod agos o'i deulu a allai fod wedi derbyn cyllid DPP tuag at eu datblygiad proffesiynol unigol yn 2008-09. Byddai swyddogion yn gwirio'r wybodaeth hon yn unol â hynny ac yn diweddaru'r datganiad os yn briodol. Awgrymodd aelod arall y dylid hefyd cyflwyno datganiadau mewn perthynas ag unrhyw berthynas a allai hefyd gynnwys Llywodraethwr ysgol.

14.5 Cymerodd Julia Evans y cyfle hwn i hysbysu'r aelodau y câi ffurflen datganiadau'r aelodau ei symleiddio yn barod ar gyfer cyfrifon y flwyddyn nesaf.

14.6 Nid oedd unrhyw bwyntiau eraill i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon i Adroddiad Blynyddol 2008-09 a Chyfrifon Blynyddol 2008-09 gael eu trosglwyddo i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i'w rhoi yn eu ffurf derfynol.

15. Ymateb drafft CyngACC i ymgynghoriad y Cynulliad ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (CyngACC 34/09)

15.1 Rhoddodd Karen Evans *(Rheolwr Polisi a Chynllunio)* gyflwyniad bras i'r papur hwn a oedd yn gofyn am farn yr aelodau ar ymateb drafft y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

15.2 Roedd sylwadau'r aelodau wedi'u ceisio'n flaenorol a'u cynnwys. Y terfyn amser ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad oedd 5ed Awst 2009.

15.3 Lleisiodd un aelod ei bryderon bod athrawon oedd yn siarad Cymraeg yn cael eu denu i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg fel bod cronfa'r arbenigedd lle byddai athrawon a allai addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael ei lleihau'n sylweddol. Amlygodd yr angen i gadw digon o arbenigedd yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg. Rhoddodd aelod arall ei farn y byddai'n well tybio bod pob ysgol yn ysgol ddwyieithog yn y dyfodol, yn hytrach na gwahanu'r ddau gyfrwng iaith.

15.4 Mynegwyd barn hefyd ynghylch myfyrwyr a oedd yn astudio TGAU Cymraeg fel ail iaith o'u cymharu â Ieithoedd Tramor Modern eraill. Roedd gofyn astudio canran uchel o lenyddiaeth yn rhan o'r TGAU Cymraeg ail iaith o'i chymharu â meysydd llafur ieithoedd tramor modern. Roedd un aelod o'r farn bod y gwahaniaeth hwn o anfantais i fyfyrwyr.

15.5 Rhoddodd un aelod ei gefnogaeth i'r ymateb drafft ac roedd yn falch ei fod yn nodi dyheadau.

15.6 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach. Cytunodd yr aelodau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ymdrin â'r ffurf derfynol.

16. Ymarfer hunanasesu'r Cyngor (CyngACC 35/09)

16.1 Wrth gyflwyno'r ymarfer hwn, gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i asesu perfformiad y Cyngor ar gyfer blwyddyn weithredol 2008-09. Atgoffwyd yr aelodau i gyflwyno'u holiaduron wedi'u cwblhau er mwyn iddynt fwydo i mewn i'r adroddiad gwerthuso blynyddol.

16.2 Mewn perthynas â lleoliad cyfarfodydd y Cyngor (cwestiwn 2.3), rhoddodd un aelod ei barn y bu ystod briodol o leoliadau daearyddol yn ystod 2008-09. Ychwanegodd y byddai angen diweddaru'r cwestiwn ar gyfer ymarferion yn y dyfodol o ganlyniad i newid i bolisi'r Cyngor ar leoliadau cyfarfodydd. Roedd dau aelod o'r farn ei bod yn bwysig nodi bod y Cyngor wedi penderfynu cynnal tri chyfarfod Cyngor y flwyddyn yng Nghaerdydd ac un yn unig yn y gogledd, o 1af Medi 2009 oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol a wynebai'r Cyngor.

16.3 Gofynnodd un aelod am eglurder ynghylch "Calendr eitemau rheolaidd ar gyfer yr agenda" y cyfeiriwyd ato yng nghwestiwn 2.6. Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhestr o eitemau rheolaidd ar gyfer yr agenda wedi'i chreu ar gyfer y Cyngor a'r Pwyllgorau Sefydlog a bod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn treialu ei defnydd. Byddai swyddogion yn ei datblygu ymhellach er mwyn ei dosbarthu i'r holl aelodau. Awgrymwyd y gellid dosbarthu'r ddogfen ar yr un pryd â'r Calendr Cyfarfodydd bob blwyddyn.

16.4 Yna cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o werthuso perfformiad y Cyngor o ran ei gyfeiriad strategol a mynegwyd sawl barn. Cydnabu un aelod fod yr ymarfer hunanasesu'n dda o beth er mwyn gwerthuso systemau'r Cyngor ond bod angen mesur effeithiolrwydd CyngACC yn ei farn ef. Cefnogodd aelod arall y farn bod angen asesu effeithiolrwydd y ffordd y trafodwyd busnes y Cyngor a fyddai hefyd yn darparu cyfle i adolygu a oedd yr holl aelodau wedi gwneud cyfraniad. Nododd y Dirprwy Gadeirydd nad oedd asesiad ychwaith o allu'r Cyngor i gyflawni cyfeiriad strategol priodol, na pha mor effeithiol oedd y Cyngor wrth fonitro a chadw ar flaen y gad ar ddatblygiadau ym maes addysg yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y system Archwilio Mewnol yn darparu gwerthusiad annibynnol o berfformiad y Cyngor yn rheolaidd.

16.5 Yna trafododd yr aelodau a ddylai'r Cyngor geisio barn y rheiny roedd y Cyngor yn eu gwasanaethu ynghylch ei effeithiolrwydd. Byddai hyn yn cynnwys nid yn unig athrawon yng Nghymru, ond rhanddeiliaid eraill fel y cyhoedd a sefydliadau eraill. Dywedodd un aelod na allai'r Cyngor wirio a oedd wedi codi statws y proffesiwn yn llygaid y cyhoedd heb unrhyw ddata meincnodi. Ar y pwynt hwn, awgrymodd aelod arall y dylai'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol a chyfathrebu ei ddyheadau a'i waith i athrawon yng Nghymru.

16.6 Dywedodd y Prif Weithredwr fod nodau penodol i'r ymarfer hunanasesu presennol ac mai mater ar wahân oedd asesu perfformiad strategol y Cyngor. Fodd bynnag, cydnabu fod rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth o rôl y Cyngor ac atgoffodd yr aelodau fod y gwaith o esbonio swyddogaethau'r Cyngor wedi'i amlygu fel cam gweithredu yn y Strategaeth Gyfathrebu Ddiwygiedig. Ychwanegodd y byddai goblygiadau o ran costau petai'r Cyngor yn penderfynu cynnal gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd strategol.

16.7 I grynhoi, rhoddodd un aelod ei barn bod yr ymarfer hunanasesu yn werth-chweil o ran galluogi'r Cyngor i werthuso rhai agweddau sylfaenol ar ei berfformiad ei hun a'r ffaith bod yr ymarfer yn ymddangos fel petai'n gam a gymerwyd fel mater o drefn yn dangos bod y sefydliad wedi esblygu ac aeddfedu ac wedi dod yn fwy effeithlon wrth gyflawni ei brif nodau. Cytunodd y byddai asesu perfformiad strategol yn ymarfer ar wahân ac aeth ymlaen i awgrymu y gellid cynnal ymchwil ynghylch sut oedd rheoleiddwyr eraill yn ceisio cael adborth a mesur eu heffeithiolrwydd.

16.8 Cytunodd yr aelodau y dylid trosglwyddo trafodaethau pellach ar fater perfformiad strategol i'r Pwyllgor Gweithredol.

16.9 Roedd sylwadau terfynol ar yr ymarfer hunanasesu'n ymwneud yn benodol â hyfforddiant i aelodau. Awgrymodd yr aelodau y gellid cynnig sesiynau hyfforddi ar faterion addysgol cyfredol fel Llwybrau Dysgu 14-19 a datblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd yr aelodau wedi croesawu'r cyflwyniadau a ddarparwyd ar lywodraethu corfforaethol gan CIPFA a chan LlCC ar yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i nodi meysydd a fyddai o fudd iddynt.

17. Unrhyw Fusnes arall

17.1 Nid oedd unrhyw fater arall yn y Sesiwn Gyhoeddus.

17.2 Yna symudodd y Cyngor i Sesiwn Breifat.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Mawrth 20fed Hydref 2009
ym
Mhrifysgol Morgannwg, Pontypridd